



Cynllunio ac Archebu Trip

Yholiad Cyhwynnol

Rhowch y wybodaeth ganlynol i ni i ddechrau; dyddiadau a ffafrir, amseroedd cyrraedd a gadael, amcangyfrif o'r niferoedd, oedran y grŵp, preswyl/dibreswyl, unrhyw weithgareddau penodol ac a oes gan eich grŵp unrhyw anghenion neu ofynion arbennig.



Argaeledd

Wedyn byddwn yn edrych ar argaeledd y ganolfan ac yn llunio cost/ffurflen archebu dros dro yn seiliedig ar eich gofynion chi. bydd y rhain yn ddilys am 4 wythnos. Os nad yw eich dyddiadau gwreiddiol ar gael, byddwn yn awgrymu opsiynau eraill.



Talu Blaendal

Os ydych chi'n dymuno symud ymlaen gyda'r archeb, mae'n ofynnol i chi dalu blaendal nad oes posibil ei dalu'n ôl o 25% yn seiliedig ar eich niferoedd dros dro. bydd hyn yn diogelu eich archeb. Os na fyddwn yn derbyn y taliad hwn o fewn 10 wythnos i'r dyddiadau, gall eich lle gael ei gynnig i grŵp arall.



NIFEROEDD TERFYNOL

Rhaid i ni gael y niferoedd terfynol 12 wythnos cyn i chi gyrraedd. wedyn byddwn yn gyrru anfoneb am y balans atoch chi'n seiliedig ar y niferoedd yma. rhaid derbyn y taliad terfynol o leiaf 6 wythnos cyn i chi gyrraedd.

Ar ôl gyrru'r anfoneb gyda'r balans, mae unrhyw ganslo/newidiadau'n amodol ar ein Telerau a'n hamodau.



Pecyn Ysgolion

Bydd pecyn ysgolion yn cael ei anfon atoch chi gydag anfoneb y balans. Rhaid ei gwblhau a'i ddychwelyd atom ni 6 wythnos cyn i chi gyrraedd. Mae'r pecyn ysgolion yn cynnwys ffurflenni caniatâd rhieni'n gofyn am oedran, cyflyrau meddygol ac unrhyw ofynion arbennig o ran deiet a mynediad y mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol ohonyn nhw.



Canlyniadau dysgu ar gyfer dysgu

Os oes gennych unrhyw ganlyniadau dysgu penodol yr hoffech i'ch disgyblion eu cwblhau, rhowch wybod i ni neu gwblhau'r ffurflen Canlyniadau Dysgu Dymunol sydd ar gael ar-lein a'i anfon yn ôl atom ni, gan y bydd hyn yn ein helpu i gynllunio eich rhaglen weithgaredd.

PLEASE NOTE: Any person under the age of 18 years without a parental consent form completed and signed, will not be permitted to take part in any activity.